OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1512 (Cy.148)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 18 Mehefin 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 19 Mehefin 2009
Yn dod i rym - - 15 Gorffennaf 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 124 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**).

Diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau

2. Yn rheoliad 4 o'r prif Reoliadau (ymwelwyr tramor sy'n esempt rhag ffioedd)—

(a) ym mharagraff (1), yn is-baragraff (c) dileer y geiriau "which has not yet been determined";

(b) ym mharagraff (1), yn lle is-baragraff (q) rhodder—

"(q) who is working outside the United Kingdom as a missionary for an organisation that is established in the United Kingdom, regardless of whether he—

(i) derives a salary or wage from the organisation, or

(ii) receives any type of funding or assistance from the organisation for the purposes of working overseas for the organisation; or

(**1**) 2006 (p.42).
(**2**) 1989/306 (fel y'i diwygiwyd).